# Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**
**Pennaeth / Headteacher : Mr C Davies**


16/09/2019

## HOLIADUR I RIENI / PARENT QUESTIONNAIRE 2019

Annwyl Rieni,
Mae cynnal a adeiladu cysylltiad cadarnhaol rhwng y cartref a'r ysgol yn holl bwysig i ni ac yn gosod sylfaen gref ar gyfer ymgyrraedd at amcanion a nodau'r ysgol wrth i ni weithio fel partneriaid yn addysg eich plentyn.

Er mwyn mesur eich barn am yr ysgol ac edrych i'r dyfodol hoffwn ofyn am eich cydweithrediad drwy ofyn i chwi roi o'ch amser i gwblhau holiadur. Gwelir islaw cyswllt a fydd yn eich tywys i'r holiadur neu sganiwch y cod QR a fydd yn eich tywys i'r holiadur. Bydd eich ymatebion yn werthfawr i ni ac yn gymorth wrth i ni wrth hunan werthuso'r ysgol. A fyddech cystal â chwblhau'r holiadur erbyn Dydd Gwener 19fed o Fedi 2019. Os ydych yn dymuno cwblhau'r holiadur ar bapur, bydd copi ar gael i chi yn y dderbynfa.

Diolch am bob cydweithrediad,

*Dear Parents,*
*Maintaining and building a positive relationship between home and school is very important to us and helps us to put in place a firm foundation on which to build the vision for our school and fulfil the objectives and goals that are important to us as partners in the education of your child.*

*Your views are important to us and with this in mind I would appreciate it if you could please give up some of your time to complete a questionnaire. There's a link below that will lead you to the questionnaire or alternatively you can scan the QR code. Your views and comments are very important to us and contribute greatly to the school's self evaluation and development plan. Please could you complete the questionnaire by Friday 20th September 2019. If you wish to complete the questionnaire on paper, copies will be available in the school reception.*

*Thank you for your co-operation,*

https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k3xoady7-yhIp_mpJV6wNKpUOVQ1SUI2MVg5OThUVVM4RTFISEpBVUdQWi4u

***C Davies***
Pennaeth / *Headteacher*

# Holiaduron : Medi 2018/ Questionnaires : September 2018

Diolch i'r sawl wnaeth cwbwlhau ein holiaduron yn 2018. Derbynion ni 72 o holiaduron wedi'u cwblhau. Dyma'r canlyniadau a chrynodeb o'r hyn rydym wedi cyflawni wrth ymateb:

*Thank you to the parents who completed the questionnaires in 2018. We received 72 completed questionnaires. Here are the results and an overview of what we have done in respect of the data:*

| | |
|---|---|
| Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol.<br>*My child likes school.* | 95.8% |
| Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda yn yr ysgol.<br>*My child was helped to settle in well at school.* | 95.8% |
| Credaf fod fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da.<br>*I believe my child is making good progress at school.* | 93.1% |
| Credaf fod fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol.<br>*I believe my child is safe in school.* | 97.2% |
| Credaf fod disgyblion yn ymddwyn yn dda.<br>*I believe children behave well in school.* | 70.8%<br>(22.2% ddim yn gwybod/ don't know) |
| Credaf fod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio, aflonyddu neu wahaniaethu.<br>*I believe that if any bullying, harassment or discrimination occurs, the school deals with it well.* | 73.6%<br>(13.8% ddim yn gwybod / Don't know) |
| Credaf fod ansawdd yr addysgu'n dda.<br>*I believe that the quality of teaching is good.* | 95.8% |
| Credaf fod fy mhlentyn yn cael profiadau dysgu da, gan gynnwys teithiau addysgol<br>*I believe that my child has good learning experiences i.e. trips and visits.* | 80.5%<br>(13.8% anghytuno / disagree) |
| Credaf fod staff yn disgwyl i'm plentyn weithio'n galed a gwneud ei (g)orau.<br>*I believe that the staff expect my child to work hard and do his/her best* | 95.8% |
| Credaf fod staff yn trin pob plentyn yn deg ac yn eu parchu,<br>*I believe that the staff treat all children fairly and with respect* | 79.2%<br>(11.1% ddim yn gwybod / don't know) |
| *Rwy'n cael gwybodaeth am gynnydd fy mhlentyn*<br>*I am kept informed about my child's progress* | 80.6%<br>(16.6% anghytuno / disagree) |
| Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn I ddod yn gyfrifol ac yn annibynnol<br>*The school helps my child to become responsible and independent pupils* | 91.7%<br>(8.3% ddim yn gwybod / not sure) |
| Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd<br>*My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise* | 91.7% |
| Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio a chwynion.<br>*I understand the school's procedures for dealing with complaints* | 73.6%<br>(13.8% anghytuno / disagree) |
| Credaf fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.<br>*I believe that the school is well run and managed.* | 88.9%<br>(9.6% ddim yn gwybod / don't know) |
| Rwy'n teimlo'n gysurus ynglyn a gofyn cwestiwn I'r ysgol, gwneud amwgrymiadau neu nodi problem<br>*I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem* | 90.3% |
| *Rwy'n fodlon a'r ysgol yn gyffredinol*<br>*Overall, I am satisfied with the school* | 97.2% |

**<u>Dyma i chi grynodeb o'r hyn yr ydym wedi datblygu yn y flwyddyn academaidd 2018-19 yn sgil eich barn nol yn Medi 2018</u>**

**<u>Meysydd i'w datblygu (y meysydd a sgoriodd isaf)</u>**

- Er bod 80.6% ohonoch chi o'r farn bod yr ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â chi ynglyn a chynnydd eich plentyn, mae 16.6% yn teimlo bod angen gwneud mwy yn y maes hwn. Rydym yn darparu nosweithiau rhieni tymhorol sef nosweithiau targedau sydd yn amlinellu targedau a chynnydd disgyblion (Hydref), nosweithiau rhieni lle bod cyfle i rieni i weld llyfrau a dathlu llwydiannau eu plant (Chwefror) ac adroddiad ar gynnydd eich plentyn (Haf). Yn 2019-20 rydym am ddatblygu hyn ymhellach wrth eich gwahodd i ddiwrnodau 'Dathlu fy Ngwaith / Sgiliau', gyda rhieni yn derbyn gwahoddiad i'r ysgol i weld gwaith eu plant ac i rannu yn eu llwyddiannau. Rydym hefyd yn gweithredu ar bolisi drws agored lle mae croeso i chi i drafod cynnydd eich plentyn a'r athro dosbarth drwy gydol y flwyddyn.
- Mae'r ysgol yn ymdrin yn effeithiol ag unrhyw achosion o fwlio. O'r rhieni hynny ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 12.5% o'r farn nad yw'r ysgol yn ymdrin â bwlio yn effeithiol a 13.8% o rieni ddim yn gwybod. Mae bwlio'n fater sy'n derbyn sylw blaenllaw mewn gwasanaethau ysgol gyfan ac mewn gwersi ABCh. Ystyrir pob achos o fwlio o ddifrif a hysbysir rhieni'r ddwy ochr o'r cychwyn cyntaf. Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff y materion hyn eu datrys, er boddhad y naill ochr a'r llall.
- Credai 70.8% o rieni fod disgyblion yn ymddwyn yn dda gyda 22.2% ddim yn gwybod. Eleni mae'r Cyngor ysgol wedi datblygu rheolau ysgol newydd. O fewn ein dosbarthiadau mae siartiau ymddygiad lle annogwn a dathlwn ymddygiad arbennig e.e wrth rannu tystysgrifau, llythyr clod wrth Mr Davies i rieni, galwadau ffon a sticeri. Fodd bynnag, pan mae achosion o ymddygiad annerbyniol, yna mae system cadarn mewn lle i ddelio a'r achos. Er mwyn adeiladu ar hyn ymhellach, bydd y staff yn derbyn hyfforddiant ymarferion Adfer y tymor hwn sy'n gwella dealltwriaeth disgyblion ynglyn a datblygu perthnasoedd, empathi a deall safbwyntiau eraill pan yn gwynebu gwrthdaro. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu unigolion iach a hyderus sydd yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd ac i wynebu heriau ac yn eu trechu.
- Roedd 73.6% o rieni yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio a chwynion. Roedd 13.8% yn aghytuno a 12.5% ddim yn gwybod. Er mwyn gwella cysylltiadau rhwng yr ysgol a rhieni, rydym wedi lawnsio gwefan newydd yr ysgol yn ystod yr Haf sydd yn cynnwys gwybodaeth, gweithdrefnau a pholisiau yr ysgol ac ati. Mae'r gwefan yn ei ddyddiau cynnar ac rydym wrthi yn adeiladu ar gynnwys y wefan eleni. Clywir y term 'polisi drws agored' yn aml yng nghyd-destun ysgolion, ond teimlwn yn gryf fod hyn yn wir yn Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn. Annogwn unrhyw riant i rannu eu teimladau neu gofidion a ni er mwyn eu datrys.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn sylwi ar fwy o welliannau i'r ysgol eleni. Fodd bynnag, os rydych yn parhau i bryderu neu os oes gennych fwy o sylwadau neu awgrymiadau, cysylltwch â mi yn yr ysgol i'w trafod ymhellach. Er ein bod yn ymdrechu i fod y gorau y gallwn fod, nid ydym yn berffaith, ond gyda'ch cefnogaeth a'ch mewnbwn parhaus, gallwn barhau i ddatblygu'r ysgol gyda'n gilydd.

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.

*Mr C Davies*
Pennaeth

Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn
Nid da lle gellir gwell

**Here is a summary of what we have developed in the 2018-19 academic year as a result of your views back in September 2018**

**Areas for development (lowest scoring areas)**

- Although 80.6% of you felt that the school communicated effectively with you about your child's progress, 16.6% felt that more needed to be done in this area. We provide termly parents evenings which include target evenings outlining pupil targets and progress (October), parents evenings where parents have the opportunity to see books and celebrate their children's achievements (February) and a report on your child's progress (Summer). In 2019-20 we want to develop this further by inviting you to 'Celebrate My Work / Skills' days, with parents being invited to school to see their children's work and to share in their achievements. We also operate an open door policy where you are welcome to discuss your child's progress with the classteacher throughout the year.
- The school deals effectively with any instances of bullying. Of those parents who responded to this question, 12.5% felt that the school does not deal with bullying effectively and 13.8% of parents did not know. Bullying is a prominent issue in whole school assemblies and in PSE lessons. All cases of bullying are taken seriously and parents of both sides are informed from the outset. In most cases, these issues are resolved, to the satisfaction of both parties.
- 70.8% of parents thought that pupils behaved well and 22.2% did not know. Last year the school council has developed new school rules. Within our classes there are behavior charts where we encourage and celebrate good behavior eg issuing certificates, a compliment letter from Mr Davies to parents, phone calls and stickers etc. However, where there are instances of unacceptable behaviour, then a robust system is in place to deal with the outbreak. To build on this further, staff will receive Restorative Practice training this term with the aim of enhancing pupils' understanding of developing relationships, empathy and the importance of understanding the perspectives of others when facing conflict. This will help to develop healthy and confident individuals who form positive relationships based on mutual trust and respect to face and overcome challenges.
- 73.6% of parents understand the school's procedure for dealing with complaints. However, 13.8% did not agree and 12.5% didin't know. In order to improve links between the school and parents, we launched the new school website during the summer term which contains information, procedures and policies etc. The site is in its infancy and we are building on the site content this year. The term 'open door policy' is often heard in the context of schools, but we feel strongly that this is the case at Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn. We encourage any parent to share their feelings or concerns with us in order to resolve them.

I hope you will notice more improvements to the school this year. However, if you remain concerned or have further comments or suggestions, please contact me at school to discuss them further. Although we strive to be the best we can be, we are not perfect, but with your continued support and input, we can continue to develop the school together.

Thank you for your continued support.

***Mr C Davies***
Headteacher